



John Griffiths AC,
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

15 Hydref 2019

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr arall mewn perthynas â'm hymateb i argymhellion 4, 9, 10 ac 11 o adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru: Cymhwysra a Gweithredu.

Rwyf wedi adolygu fy ymatebion a chredaf fod "gwrthod" yn adlewyrchu'n glir safbwynt Llywodraeth Cymru o safbwynt pwy ddylai wneud y penderfyniad, a'i gallu i sbarduno'r newid a gynigir o fewn amserlen resymol. Ni ddylai'r ffaith fy mod yn gwrthod yr argymhellion hyn, fodd bynnag, awgrymu nad wyf yn barod i weithredu gan ddefnyddio dulliau ymyrryd eraill.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion gydweithio'n agos ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau rhagor o gysondeb o safbwynt ymdrin â cheisiadau a gaiff eu gwrthod. Byddwn hefyd yn trafod â'r awdurdodau a fyddent yn barod i ehangu trefniadau parcio'n rhatach. Os bydd awdurdodau'n barod i wneud hyn byddwn yn cynnig cymorth er mwyn trafod a oes cyfle i wneud hynny.

Yn olaf, bydd fy swyddogion yn parhau i drafod y canllawiau presennol ag awdurdodau lleol, a chrosawaf bob cyfle i wella'r cynnwys neu'r defnydd ohonynt ac i sicrhau eu bod yn parhau'n ddefnyddiol ar gyfer awdurdodau lleol.

Yn gywir

Ken Skates AC/AM
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.